

Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Haf 2021
eGylchlythyr 12



Cyflwyniad gan Neil Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Mae'n anodd credu bod dros hanner 2021 eisoes wedi mynd heibio ac rydyn ni'n dal i ddelio ag effeithiau COVID-19 a'r heriau sydd wedi dod yn ei sgil.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae ein staff a'n cydweithwyr yn parhau â'u gwaith rhagorol i wneud ystâd iechyd GIG Cymru yn well, yn fwy diogel ac yn wyrddach.

Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd a gosododd darged uchelgeisiol i sector cyhoeddus Cymru fod yn 'sero-net' o ran allyriadau carbon erbyn 2030.

Trwy ein hymrwymiad i gyflawni hyn, rydym wedi gweithio ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Garbon i greu Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru.

Rydym wedi nodi ein targedau wrth reoli carbon, caffael, cynllunio ystadau a rhagor yn y ddogfen hon.

Mae'r pandemig eisoes wedi ein gorfodi ni i weithio mewn nifer o ffyrdd gwyrddach, sy'n sylfaen gref i ni adeiladu arni a bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiadau yn 2025 a 2030.

Yn gysylltiedig â'r Cynllun Datgarboneiddio, mae ein Tîm Eiddo wedi bod yn brysur yn rhoi'r trefniadau olaf ar waith ar gyfer fferm solar newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Sicrhaodd ein tîm y tir ar gontract prydles i alluogi'r bwrdd iechyd i adeiladu fferm solar 4-MegaWat a fydd yn darparu pŵer i Ysbyty Treforys.

Mae'n brosiect arloesol a chredir mai hon yw'r enghraifft gyntaf yng Nghymru a'r DU o brosiect mor arloesol sy'n arbed ynni.

Cydnabuwyd enghraifft arall o'n hymdrechion o ran cynaliadwyedd yn y cynllun gwobrau staff pan enillodd Aran Chaplin, ein Myfyriwr Rhwydwaith 75, ddyfarniad ym maes Cyfraniad Amgylcheddol at Gynaliadwyedd am ei waith ar osod Mannau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) ar safleoedd PCGC. Da iawn, Aran.

Mae'n sicr yn amser cyffrous ar gyfer newid yn yr ystâd iechyd ac rydym yn edrych ymlaen at helpu i arwain y datblygiadau hyn.

Cofion gorau, Neil

Neil.Davies4@wales.nhs.uk | 02920905382

Yn y rhifyn hwn...

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe – Prosiect
Fferm Solar**
Tudalen 1

**Cynllun Datgarboneiddio
GIG Cymru**
Tudalen 2

**Gwobr Rhagoriaeth mewn
Gwasanaethau Cwsmeriaid**
Tudalen 3

Gwobrau Staff PCGC
Tudalen 4

Newidiadau Staff
Tudalen 5

**Y Gornel Hanes: Ysbyty
Canolbarth Cymru**
Tudalen 6

**Cyhoeddiadau
technegol
ers mis Ebrill 2021**
Tudalen 7

**Manylion Cyswllt
Gwasanaethau
Ystadau
Arbenigol**
Tudalen 7

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe – Prosiect Fferm Solar



Mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau tir drwy gytundeb prydles 26 mlynedd er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu fferm solar 4 megawat ar Fferm Brynwhilach, ger Llangyfelach yn Abertawe.

Unwaith y bydd y fferm solar wedi'i chwblhau, bydd yn darparu pŵer i Ysbyty Treforys drwy gysylltiad gwifren preifat 3km o hyd.

Ysbyty Treforys fydd yr ysbyty cyntaf yng Nghymru (a chredir mai dyma'r cyntaf yn y DU hefyd) i ddatblygu ei fferm solar raddfa lawn ei hun, gan gostio £5.7 miliwn.

Dyfarwyd cyfanswm o £13.5 miliwn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer y fferm solar a mesurau arbed ynni a lleihau carbon eraill, a ad-delir ar sail buddsoddi i arbed.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwario tua £6.9 miliwn y flwyddyn ar drydan, nwy, dŵr a thriniaeth carthion, ond bydd buddsoddi yn y fferm solar a chynlluniau lleihau ynni eraill yn arwain at leiafswm o arbedion wedi'u gwarantu o dros £1.5 miliwn y flwyddyn. Bydd hefyd yn lleihau allyriadau carbon o tua 3,000 tonnall y flwyddyn. Mae gan y prosiect gyfnod ad-dalu o 8 mlynedd.

Bydd y fferm solar, sy'n cynnwys 10,000 panel ar draws 14 hectar o dir, yn cyflenwi bron chwarter pŵer Ysbyty Treforys, gan dorri'r bil trydan tua £500,000 y flwyddyn a lleihau allyriadau carbon yn sylweddol. Ar adegau cynhyrchu brig, bydd hyn yn ateb y galw am drydan ar gyfer yr ysbyty cyfan, wrth leihau allyriadau carbon.

Mae gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar y safle, ac mae Vital Energi, y partner a ddewiswyd gan y Bwrdd Iechyd, wedi cwblhau'r gwaith seilwaith ac wedi gosod dros hanner y paneli. Disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei gwblhau'n ymarferol yn ystod hydref 2021.

Mae'r prosiect wedi bod yn gymhleth, yn hirfaith ac mae wedi cymryd cryn amser, a dechreuodd y trafodaethau cychwynnol yn 2016. Arweiniodd cyfranogiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol yn 2018 at drafod telerau ar gyfer cytundeb cyfyngu, cyn cwblhau cytundeb opsiwn ar 17 Tachwedd 2020 a chwblhau'r brydles ar gyfer y fferm solar ar 11 Chwefror 2021 yn olaf. Roedd angen y trafodaethau hyn i ddiogelu sefyllfa'r Bwrdd Iechyd wrth ddarparu hyblygrwydd ar gyfer y prosiect, ynghyd â bodloni terfynau amser amrywiol o ran prosiectau a chyllid.



Ffotograffau cyn y datblygiad



Mehefin 2021

Nododd Sian Cornwell-Shaw, Syrfëwr Eiddo yng Ngwasanaethau Ystadau Arbenigol:

"Roeddwn i wrth fy modd i allu darparu'r tir a ganiataodd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ddatblygu'r Fferm Solar. Er bod y mater wedi cyflwyno nifer o rwystrau i'w goresgyn, gwnaethom allu sicrhau bod y cynnig tir yn darparu'r hyn yr oedd ei angen ar y Bwrdd Iechyd."

Meddai Des Keighan, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol, Bae Abertawe:

"Ni fydd y Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i ddatblygu ei fferm solar ei hun."

"Mae wedi bod yn heriol iawn. Fodd bynnag, gyda llawer o waith caled gan ein tîm prosiect, a oedd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill, rydym wedi llwyddo i sicrhau'r datblygiad."



Sian Cornwell-Shaw

Syrfëwr Eiddo

Sian-Cornwell-Shaw@wales.nhs.uk | 02920904115

Cynllun Datgarboneiddio GIG Cymru

Yn rhan o darged Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus ddod yn 'sero-net' o ran allyriadau carbon erbyn 2030, mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) wedi cyhoeddi Cynllun Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru yn ddiweddar.

Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru 'argyfwng hinsawdd', sef y Llywodraeth gyntaf yn y byd i wneud hynny ac mae GIG Cymru yn cydnabod bod ganddo gyfraniad sylweddol i'w wneud.

Cydweithiodd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol â'r Ymddiriedolaeth Carbon i ysgrifennu'r Cynllun ar gyfer GIG Cymru, sy'n amlinellu cynigion uchelgeisiol ond realistig a fydd yn gofyn am newid hanfodol yn ymagwedd y genedl at ofal iechyd mewn rhai meysydd. Mae bron 50 targed yn y ddogfen sy'n cwmpasu rheoli carbon, adeiladau, trafniadaeth, caffael, cynllunio ystadau a defnydd tir yn ogystal â'r ymagwedd at ofal iechyd. Bydd y targedau'n cael eu hasesu a'u hadolygu'n ffurfiol yn 2025 ac yn 2030.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo £16m yn 2021/22 i gefnogi'r cynlluniau datgarboneiddio, ac mae cyllid cyfalaf wedi'i ddyrannu ar gyfer cynlluniau megis fferm solar, pypiau gwres ffynhonnell aer a phwyntiau gwefru cerbydau trydan ar ystâd gofal iechyd GIG Cymru. Dyranwyd £21m pellach o gyllid cyfalaf yn 2021/22 i seilwaith, diogelwch tân a phrosiectau iechyd meddwl, yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd gan sefydliadau iechyd, gan gynnwys GIG Cymru.





Meddai Chris Lewis, Uwch Gynghorydd Rheoli'r Amgylchedd a Chyfleusterau:

"Mae creu a darparu Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru wedi bod yn waith heriol, cyffrous a diddorol iawn i ni, lle rydym wedi gweithio gyda nifer o gydweithwyr gwybodus a brwdfrydig ar draws GIG Cymru i greu'r ddogfen bwysig hon."

"Mae datgarboneiddio yn flaenoriaeth enfawr i GIG Cymru ac rydym yn gobeithio y bydd y Cynllun hwn yn gosod y fframwaith ar gyfer sut y gall GIG Cymru helpu i gyflawni uchelgeisiau sero-net y sector cyhoeddus yng Nghymru hyd at 2030. Rydym yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r daith hon."

Mae pandemig COVID-19 dros y 15 mis diwethaf eisoes wedi gorfodi rhai newidiadau gwyrdd, gan gynnwys cynnal dros 128,000 o ymgynghoriadau cleifion yn rhithiol, gan arbed tua 521,000 o filltiroedd teithio, sy'n gyfystyr â 50 trip i Awstralia ac yn ôl. Bydd mesurau datgarboneiddio hefyd yn cael eu gwreiddio i bob prosiect seilwaith ar draws GIG Cymru yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun hefyd yn edrych ar faterion iechyd tymor hwy gan gynnwys tloidi a mantais a phwysigrwydd manau gwyrdd ar gyfer buddion therapiwtig.

Gellir darllen Cynllun Strategol ar gyfer Datgarboneiddio GIG Cymru [yma](#).



Christopher Lewis

Uwch Gynghorydd Rheoli'r Amgylchedd a Chyfleusterau
Christopher.Lewis4@wales.nhs.uk | 02920 904096

Gwobr Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid

Er 2014, rydym wedi meddu ar wobwr Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid Llywodraeth y DU a phob blwyddyn ers hynny rydym wedi bod yn destun adolygiad blynyddol lle bydd asesydd allanol yn siarad â'n cwsmeriaid a'n staff er mwyn creu darlun o'n perfformiad mewn perthynas â gwasanaeth cwsmeriaid. Eleni, fel yn ystod y blynyddoedd blaenorol, bodlonwyd y meini prawf dyfarnu'n llawn. Mae hyn yn dyst i ddulliau ansawdd ein staff yn ystod y pandemig wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i chi.

Teimlai'r asesydd ein bod 'yn bendant wedi mynd yr ail filltir' wrth eich helpu i ddelio â'r heriau sy'n gysylltiedig ag ystadau gan eich helpu i sicrhau, er enghraifft, fod digon o ocsigen ar gael i fodloni gofynion cleifion COVID-19 yn ystod y cyfnod anodd hwn a hefyd bod prydles a chytundebau eraill wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â

datblygu ysbytai maes a chanolfannau brechu ledled Cymru. Fe'n canmolwyd hefyd am sefydlu grŵp Cynllunio ac Ymateb gyda'r dasg o addasu ein gwasanaethau i ateb eich gofynion wrth i ragor o staff weithio gartref.

Dilyswyd canlyniad yr adolygiad CSE gan ganlyniad ein harolwg Boddhad Cwsmeriaid blynyddol lle roedd 94.6% o ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'n dull gwasanaeth cwsmeriaid.

Cysylltwch â Martin Cooper, Rheolwr Busnes, os oes gennych ddi-ddordeb mewn darganfod rhagor am ein gwasanaeth cwsmeriaid a'n dulliau sy'n gysylltiedig ag ansawdd.



Martin Cooper

Rheolwr Busnes
Martin.Cooper@wales.nhs.uk | 02920 904085

Gwobrau Staff PCGC - Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (SES) yn Ennill Gwobraus

Derbyniodd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol sawl gwobr ym mhumed sesiwn wobrwyo Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) i staff yn ddiweddar, a gynhaliwyd yn rhithwir eleni.



Ymhlith y siaradwyr yn y digwyddiad gwobrwyo roedd Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr GIG Cymru, Margaret Foster, Cadeirydd Pwyllgor PCGC a Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr PCGC.

Cydnabuwyd gwaith rhagorol staff SES wrth gefnogi ein Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth y GIG a chwsmeriaid Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig COVID-19, gan ein cyfoedion.

Roedd yn arbennig o braf i'n Tîm Peirianeg Fecanyddol dderbyn gwobr uchel ei chlod yn y categori 'Gweithio Gyda'n Gilydd'.

Buodd y tîm yn gweithio'n ddiflino i ddarparu cymorth proffesiynol a pheirianyddol technegol i Fyrddau Iechyd yng nghamau dilysu a gwirio dyluniad cyfleusterau'r Ysbytai Maes. Yn y diwedd, crëwyd 19 o ysbytai maes newydd mewn llai nag 8 wythnos, gan ddarparu 6,000 o welyau ychwanegol ledled GIG Cymru.

Yn ogystal, cyflymodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y gwaith o adeiladu Ysbyty Athrofaol y Faenor ger Cwmbân i ddarparu capasiti ymchwydd ychwanegol o 650 o welyau a buodd tîm peirianeg SES unwaith eto'n gweithio'n agos gyda'r contractwr, ymgynghorwyr cymorth a chydweithwyr y Bwrdd Iechyd i sicrhau y byddai systemau

peirianeg yr ysbyty yn ddiogel cyn iddi dderbyn cleifion.

Cafodd ein tîm Datblygu Ystadau ganmoliaeth uchel hefyd yn y categori 'Tîm y Flwyddyn' am eu gwaith yn cefnogi Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a Llywodraeth Cymru pan ddaeth COVID-19 i'r amlwg, yn benodol mewn perthynas â chynghori ar faterion diogelwch tân mewn ysbytai maes, caffael a gosod offer delweddu diagnostig a darpariaeth gwastraff clinigol.

Pan oedd cyfyngiadau teithio ar waith yn ystod y cyfnod clo, parhaodd y tîm peirianeg a thân i ymweld â safleoedd ysbytai i ddilysu, gwirio a chynghori yn unol â gofynion cynyddol eu cwsmeriaid.

Er enghraifft, roedd effaith ein gweithgarwch yn hanfodol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, gan gysylltu â chydweithwyr peirianeg cymorth i alluogi'r i'r rhaglen gomisiynu gael ei chwblhau'n gynt. Derbyniwyd mwy o wobrau am weithgarwch nad yw'n benodol i Covid.

Ymhlith y rhain, yr oedd Aran Chaplin, un o'n myfyrwyr Rhwydwaith 75, a enillodd y wobwr am Gyfraniad Amgylcheddol i Gynaliadwyedd, categori y cafodd ein tîm Eiddo ganmoliaeth uchel ynddo hefyd.



Aran Chaplin

Chwaraeodd Aran ran allweddol wrth archwilio'r cyfleoedd ar gyfer gosod Mannau Gwefru Ceir Trydan (EVCP) ar safleoedd PCGC.

Mae'r gwaith yn cydnabod ymgyrch bolisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Chymru i gynyddu twf defnydd ceir trydan a'r angen i gefnogi staff wrth iddynt ddefnyddio cerbydau trydan. Cydnabyddir bod diffyg Mannau Gwefru Ceir yng Nghymru yn rhwystr i sicrhau y bydd mwy o gerbydau trydan ar ein ffyrdd. Wrth redeg y prosiect, darparodd Aran gefnogaeth i'r tîm peirianeg i helpu

i ddatblygu'r fenter, gan gynnwys cynnal asesiad o nifer y safleoedd PCGC yng Nghymru y gellid eu hystyried ar gyfer EVCP, arolygon safle yn ogystal ag ymchwilio i dechnoleg wefru i benderfynu pa offer fyddai'n gweddu orau i'n safleoedd.

Penderfynwyd beth fyddai'r math mwyaf priodol o EVCP ar sail ymchwil Aran. Yna, fe gysylltodd â gwasanaethau corfforaethol a chaffael PCGC er mwyn cydlynu contractwyr EVCP i arolygu'r darpar safleoedd a darparu dyfynbrisiau at ddibenion gwneud penderfyniadau.

Bwriedir i'r cynllun weithredu fel prosiect peilot i gynorthwyo byrddau iechyd, y mae llawer

ohonynt yn ymchwilio i EVCP ar gyfer staff a meysydd parcio cyhoeddus mewn ysbytai mawr. Os oes angen cyngor arnoch ynghylch EVCP, mae croeso i chi gysylltu â:



Simon Russell

Pennaeth Peirianeg

Simon.Russell@wales.nhs.uk | 02920 904100

Hefyd, os oes gennych chi hanesion newyddion da ar sut rydyn ni wedi eich cefnogi chi yn ystod y pandemig, hoffem glywed gennych chi. Yn yr un modd, pe gallem fod wedi eich cefnogi mewn ffordd fwy effeithiol, rhowch wybod i ni.



Jessica Morgan

Swyddog Gwybodaeth

Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

Newidiadau Staff

Gadawodd dau o'n haelodau staff sydd wedi gwasanaethu hiraf yn SES yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Gadawodd Iain Worby, Pennaeth Adeiladu dros Gymru, ym mis Ionawr. Yn fwy diweddar, roedd wedi bod ar secondiad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg er mwyn cyflwyno achos busnes dros ddatblygiad yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Hefyd, ymddeolodd Nigel Davies, ein Dirprwy Gyfarwyddwr ym mis Mawrth, ar ôl bron i 40 mlynedd o wasanaeth.

Darparodd Iain a Nigel wasanaethau proffesiynol o safon i'n cwsmeriaid o dan y nifer o sefydliadau rhagflaenol SES fel yr EstateCare Group, rhan o Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru (WHCSA), Ystadau Iechyd Cymru a ffurfiwyd o WHCSA pan gafodd ei ddiddymu ym 1996 a'r Gwasanaethau Cyfleusterau ychydig cyn newid yr enw i Wasanaethau Ystadau Arbenigol. Bydd Llywodraeth Cymru, cwsmeriaid GIG Cymru a'n staff ein hunain yn gweld eisiau eu gwybodaeth, eu profiad a'u proffesiynoldeb yn fawr iawn. Dymunwn yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

O ran staff newydd, ymunodd Owain Davies â ni ym mis Ionawr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gymryd swydd wag yn ein tîm profi sterileiddio. Ymunodd Thomas Kuehn â ni hefyd ym mis Ionawr. Ei rôl ddiweddaraf

oedd Cyfarwyddwr Pensaer yn Atkins yng Nghaerdydd. I ddechrau, bydd Thomas yn cefnogi datblygiad achosion busnes ar gyfer y prosiect gwasanaethau golchdy sy'n mynd rhagddo ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n heriol ymuno â sefydliad newydd yn ystod pandemig, ond mae'r ddau wedi derbyn croeso mawr yn ystod nifer o gyfarfodydd dros Teams.

Llongyfarchiadau hefyd i Nigel Bolan, Peiriannydd Trydanol, sydd wedi cyflawni ei siarter yn ddiweddar, a chael ei gofrestru gyda'r Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg.



Iain Worby



Nigel Davies



Owain Davies

Y Gornel Hanes: Ysbyty Canolbarth Cymru



Ar wahanol ffurfiau dros y blynyddoedd, mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi bod â chysylltiad hirsefydlog â'r ystâd iechyd yng Nghymru. Mae'n anodd rhagweld dyfodol adeiladu ysbytai yng Nghymru, ond mae'r gorffennol wedi'i gofnodi yn ein harchifau. Rydym yn gobeithio y bydd yr erthygl ganlynol o ddiddordeb ichi.

Yng nghefn gwlad Powys ger y Mynyddoedd Duon mae ysbyty a fu'n trin cleifion am bron i ganrif cyn iddo gau ei ddrysau am y tro olaf.

Dyluniwyd ysbyty Canolbarth Cymru gan y penseiri John Giles, Albert Edward Gough a Trollope o Lundain ac mae'n dilyn cynllun esielon saeth cryno yn seiliedig ar gyfres o adeiladau ward wedi'u lleoli o amgylch y tu allan i goridau cylch canolog sy'n cysylltu'r wardiau. Dyluniwyd pob ward a'i ddynodi ar gyfer cyflwr penodol yn seiliedig ar ddifrifoldeb y salwch meddwl a'r driniaeth sy'n ofynnol. Adeiladwyd yr ysbyty ym 1900 ac agorodd i gleifion ym 1903 dan yr enw Brecon and Radnor Counties Joint Lunatic Asylum.

Yn ystod yr oes hon, credai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y dylid trin pobl â phroblemau iechyd meddwl yng nghefn gwlad, ymhell o'r cyhoedd. Barnwyd bod y lleoliad gwledig hwn yn ddelfrydol gan ei fod yn agos at Raeadr Pwll-Y-Wrach a fu'n darparu cyflenwad dŵr ffres i'r ysbyty.

Adeiladwyd yr ysbyty dros 27 erw i ofalu am 352 o gleifion i ddechrau. Roedd yn gartref i'w waith dŵr ei hun, system garthffosiaeth, ystafell boeler, fferm 155 erw gydag wyth erw o erddi marchnad i gyflenwi ffrwythau a llysiau i'r ysbyty. Gallai cleifion yr ystyriwyd eu bod yn ddigon eu bod yn ddigon iach weithio ar y fferm yn ogystal ag yn y gweithdai. Roedd gan yr ysbyty hefyd ei eglwys ei hun, teiliwr, becws, crydd, ystafelloedd golchi dillad a gwasg argraffu. Golygai hyn oll fod y cyfleuster yn gwbl hunangynhaliol.

Cynyddodd nifer y cleifion yn yr ysbyty yn gyflym yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf oherwydd bod milwyr yn dychwelyd o'r rhyfel yn profi trawma o'r hyn roeddent wedi'i weld ac yn cael triniaeth am siel-syfrdandod.

Ym 1925, cofnodwyd mai capasiti'r ysbyty oedd 455. Tua'r adeg hon, cafodd y cyfleuster ei aileniwi'n Mid-Wales Counties Mental Hospital. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, penderfynodd y llywodraeth y dylai'r ysbyty ddod yn ysbyty milwrol i filwyr a oedd wedi'u hanafu a symudwyd y cleifion oedd yna ar y pryd i ysbytai ymhellach i ffwrdd. Hefyd, ar yr adeg hon, defnyddid rhan o'r ysbyty fel gwersyll carcharorion rhyfel er mwyn trin milwyr y gelyn a oedd wedi cael eu dal.

Ym 1947, dychwelodd yr ysbyty i ofalu am y rhai â salwch meddwl o dan yr enw The Mid Wales Hospital ac o 1948 fel cyfleuster GIG ac ym 1955 roedd 496 o gleifion yno, sef y mwyaf erioed. Erbyn 1994, dim ond 140 o gleifion oedd yno, wrth i driniaeth feddygol ar gyfer materion iechyd meddwl newid yn ddramatig a chleifion yn cael eu trin yn eu cymunedau.

Caeodd yr ysbyty yn y pen draw ym 1999. Ar ôl gwerthu'r ysbyty, gwnaed cynlluniau i ailddatblygu'r safle yn barc busnes, ond oherwydd ei leoliad a'r dirwasgiad, ni lwyddodd hyn. Mae'r adeilad bellach yn denu fforwyr trefol sydd am dynnu lluniau o adeiladau gadawedig.

Mae gennym lyfrgell luniau helaeth o ystadau ysbyty yng Nghymru a byddem yn croesawu unrhyw luniau a allai ehangu ein cofnodion. I gyflwyno lluniau, neu os hoffech i ni gynnwys eich ysbyty mewn rhifyn o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, cysylltwch â:



Jessica Morgan

Swyddog Gwybodaeth

Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

Cyhoeddiadau technegol ers mis Ebrill 2021

Nodiadau Adeilad Iechyd Cymru (WHBNs)

Dogfennau canllaw ar gyfer cynllunio a dylunio ystod o adeiladau gofal iechyd sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

Dogfennau ar y gweill:

- WHBN 00-10 – Canllawiau ar reiliau llenni gwrth-rwymyn
- WHBN 06-01 – Dylunio cyfleusterau ar gyfer delweddu diagnostig
- WHBN 10-01 – Gweithdrefnau llawfeddygol
- WHBN 10-02 – Llawfeddygaeth Ddydd
- WHBN 14-02 – Rheoli meddyginiaethau

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTMs)

Dogfennau sy'n rhoi arweiniad technegol ar ystod eang o systemau arbenigol yn ystâd gofal iechyd Cymru.

Dogfennau ar y gweill:

- WHTM 03-01 – Awyru arbenigol ar gyfer adeiladau gofal iechyd

Dogfennau eraill, gan gynnwys papurau sy'n gysylltiedig â COVID-19

- [Gweithdrefn weithredu safonol rheoli gwastraff COVID-19 Fersiwn 2](#)
- [Canllaw gweithredol ar gyfer dychwelyd amgylcheddau gofal iechyd yn ddiogel i drefniadau arferol yn dilyn yr ymateb cychwynnol i Covid-19](#)
- [Canllaw gweithredol ar gyfer dychwelyd Adeiladau Practis Meddygol Cyffredinol yn ddiogel i drefniadau arferol yn dilyn yr ymateb cychwynnol i Covid-19](#)
- [Gweithdrefn Weithredu Safonol Rheoli Gwastraff Covid-19](#)
- [Pandemig COVID-19 a'r camau sydd eu hangen i liniaru ei effaith ar berfformiad System Hylif Ocsigen Cryogenig Gofal Iechyd](#)



Jessica Morgan

Swyddog Gwybodaeth

Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 02920 904118

Manylion Cyswilt Gwasanaethau Ystadau Arbenigol



Gall y rhai sy'n gweithio yn GIG Cymru ddefnyddio naill ai ein [cyfeiriadur gwasanaethau](#) neu [restr o staff](#) i ddod o hyd i'r person iawn i wneud y gwaith, a gall y rhai nad ydynt yn gweithio i GIG Cymru ddefnyddio'r rhestr o staff ar ein [gwefan](#).



Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
3ydd llawr, Tŷ'r Cwmniau
Ffordd y Goron
Caerdydd
CF14 3UB



02920904118